STANDING ORDERS

1. All Meetings of the Governing Body shall open with Prayer.

2. When the Chair has taken the Chair, he or she shall have control of proceedings of the meeting, subject to Standing Orders and the Constitution.

3. Unless a member wishes to raise a point of order a member shall address the Chair only from a position which is within range of a microphone and shall first give his or her name, relevant office (if any) and the diocese from which he or she comes.

4. All motions and amendments shall be in writing, signed by the mover; unless given to the Secretaries prior to the Meeting, two copies thereof must be handed in by the mover, one to the Chair and the other to the Secretaries.

5. (1) Speeches, with the exception of those made by the mover and seconder of a motion, shall not exceed 5 minutes, or 6 minutes in the case of speeches requiring simultaneous translation throughout.
   (2) Speeches made by the mover and seconder of a motion shall not exceed 10 minutes, or 12 minutes in the case of speeches requiring simultaneous translation throughout.
   (3) An amendment is not a motion within the meaning of this order.
   (4) However in the course of the meeting, the maximum time may be reduced 3 minutes, or 4 in the case of speeches requiring simultaneous translation throughout, in accordance with regulation 28 of Chapter II of the Constitution.

6. The Chair may, with the leave of the Meeting, extend the time for a speech.

7. (1) A motion which is set out in full on the agenda-paper or its accompanying papers need not be read before being put, unless either the Chair, or ten members (the latter signifying their intention by rising in their places) so require.
   (2) All other motions or amendments shall be read immediately before the vote thereon is taken.

8. No member shall be allowed to speak more than once on the same motion or amendment, except in explanation, or to raise a point of order, provided that the mover of any motion or amendment shall be allowed the liberty of reply.

9. Whenever the Chair rises during a debate, any member speaking or offering to speak shall immediately sit down.

10. (1) If, during a debate, 20 members rise in their places and demand that a vote be now taken, the Chair shall put that question to the Meeting for a decision by show of hands.
    (2) If the Meeting decide such question in the affirmative, a vote shall thereupon be taken on the motion before the Meeting, provided that before such vote is taken on a motion or amendment the mover of the motion or amendment shall be allowed the liberty of reply.

11. Any member may propose that the current debate be ended immediately without a vote being taken, and the Chair shall put that question to the meeting for a decision. If this is carried, the next business shall be immediately proceeded with.

12. No amendment on an amendment shall be in order until such time as the amendment has become a substantive motion.

13. A motion for the suspension of the Standing Orders shall require the agreement of a majority of the members present.

14. These Standing Orders shall not apply to proceedings in committee.

Revised April 2018

RHEOLAU SEFYDLOG

1. Bydd holl gyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn dechrau gyda gweddi.

2. Wedi i'r Cadeirydd gymryd y Gadair, ef neu hi fydd yn rheoli gweithgareddau'r cyfarfod, yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfansoddiad.

3. Os nad yw aelod am godi pwynt o drefn, ni chaiff annerch y Gadair ond o le sydd o fewn cyrraedd meicroffon, a bydd yn rhaid iddo/iddi yn gyntaf roi ei enw neu ei henw, ei swydd berthnasol (os oes un) a'r esgobaeth y daw ef neu hi ohoni.

4. Rhaid i bob cynnig a phob gwelliant fod mewn ysgrifen, ac wedi eu harwyddo gan y cynigydd; oni roddwyd hwy i'r Ysgrifenyddion cyn y cyfarfod, rhaid i'r cynigydd roi un copi i'r Cadeirydd ac un i'r Ysgrifenyddion.

5. (1) Ni chaiff areithiau, ac eithrio areithiau cynigydd ac eilydd, fod yn hwy na 5 munud, neu 6 munud yn achos areithiau cyfan y mae'n rhaid eu cyfieithu ar y pryd.
   (2) Ni chaiff areithiau cynigydd ac eilydd fod yn hwy na 10 munud, neu 12 munud yn achos areithiau cyfan y mae'n rhaid eu cyfieithu ar y pryd.
   (3) Nid yw'r rheol hon yn ystyried gwelliant yn gynnig.
   (4) Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod, gellir lleihau'r uchafswm amser i 3 munud, neu 4 yn achos areithiau cyfan y mae'n rhaid eu cyfieithu ar y pryd, yn unol â rheoliad 28 Pennod II y Cyfansoddiad.

6. Fe all y Cadeirydd, gyda chaniatâd y cyfarfod, ganiatáu mwy o amser i araith.

7. (1) Ni fydd yn rhaid darllen cynnig a osodwyd yn llawn ar bapur yr agenda neu'r papurau a ddaw gyda'r agenda cyn ei osod gerbron, onid yw'r Cadeirydd, neu ddeg aelod (a fydd yn dangos eu bwriad trwy godi yn eu seddau) yn dymuno hynny.
   (2) Bydd pob cynnig neu welliant arall yn cael eu darllen yn union cyn pleidleisio arnynt.

8. Ni chaniateir i'r un aelod siarad fwy nag unwaith ar yr un cynnig na gwelliant, ar wahân i esbonio neu i godi pwynt o drefn, ar yr amod y caniateir i gynigydd y cynnig neu'r gwelliant yr hawl i ateb.

9. Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn codi ar ei draed yn ystod dadl, bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n siarad, neu'n gwneud ymgais i siarad, eistedd i lawr.

10. (1) Os bydd 20 aelod yn codi yn eu seddau yn ystod dadl ac yn mynnu fod pleidlais i'w chymryd, bydd y Cadeirydd yn gosod y cwestiwn gerbron y cyfarfod i'w ateb trwy godi dwylo.
    (2) Os bydd y cyfarfod yn ateb yn gadarnhaol, fe gymerir pleidlais ar y cynnig gerbron, ar yr amod y caniateir i gynigydd y cynnig neu'r gwelliant yr hawl i ateb cyn cymryd y bleidlais.

11. Gall unrhyw aelod gynnig fod y ddadl bresennol yn cael ei therfynu ar unwaith heb gymryd pleidlais, a bydd y Cadeirydd yn gosod y mater gerbron y cyfarfod. Os bydd y cyfarfod yn derbyn hynny, eir ymlaen yn syth at y mater nesaf.

12. Ni fydd unrhyw welliant i welliant mewn trefn nes bod y gwelliant cyntaf yn gynnig penodol.

13. Bydd ar gynnig i atal y Rheolau Sefydlog angen cytundeb mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol.

14. Nid yw'r Rheolau Sefydlog hyn i'w cymhwyso i weithgareddau pwyllgorau.

Adolygwyd ym mis Ebrill 2018